
# Y Frenhines Sbwriel

Roderick Hunt   Alex Brychta

Pïod
DRAKE






Aeth tad a mam Wilff a Wilma â rhai o'r plant am bicnic. Aethon nhw i Fryn y Ceffyl Gwyn.

Roedd hi'n ddiwrnod braf o haf heb 'run cwmwl yn yr awyr.

Roedd hi'n ddiwrnod perffaith i gael picnic yn y wlad.



Roedd mam Wilma wedi dod â llawer o fwyd, felly roedd gan bawb rywbeth i'w gario. "Cawn ni'n picnic wrth droed y bryn," meddai hi. "Gwn i am le da i eistedd."

Taenodd tad Wilma garthen ar y glaswellt ac eisteddodd pawb.



"Mae'r picnic yma'n ardderchog," meddai Cad. "Mae blas ardderchog ar y brechdanau yma."

"Ac mae fan yma'n lle ardderchog ar ddiwrnod fel hyn," meddai Wilma. "Medra i weld yn bell."

"Gweli di fwy fyth o ben y bryn," meddai tad Wilma.




Ar ôl y picnic, roedd y plant eisiau dringo'r bryn. Rhedodd Cad a Wilff o flaen pawb. Roedd y ddau eisiau bod yn gyntaf i gyrraedd y copa.

"Rasia i chi i fyny i fan'na," galwodd Cad.

Galwodd mam Wilma ar bawb i ddod yn ôl. "Edrychwch ar yr holl sbwriel adawsoch chi," meddai.





Gwnaeth mam Wilma i'r plant godi'r sbwriel. Dywedodd wrthyn nhw am ei roi mewn bag.

"Awn ni â'r sbwriel yn ôl i'r car efo'r pethau picnic," meddai. "Byddai'r lle yma'n edrych yn ddychrynllyd petai pawb yn gadael caniau a phacedi ar eu holau."



Aethon nhw â'r pethau picnic yn ôl i'r car. Yna cerddon nhw i fyny'r bryn. Cymerodd hi dipyn o amser i gyrraedd y copa. Eisteddodd pawb i gael sbel fach.

"Mae Dad yn iawn," meddai Wilma. "Medra i weld am filltiroedd. Mae'r tai a'r ceir yn fychan, fach."



Hedfanodd peiriant rhyfedd heibio. "Be ydi hwnna?" gofynnodd Dids. "Mae'n edrych fel cadair."

"Meicroleit," meddai tad Wilma. "Ydi, mae o braidd yn debyg i gadair ag adenydd."

"Hoffwn i hedfan mewn un," meddai Cad.

"Dim diolch," meddai Dids. "Mae'n rhy simsan."



Cerddon nhw'n ôl drwy goedwig. Rhedodd Mwlsyn i mewn ac allan o'r coed. Yna, cyfarthodd.

"O na!" meddai Dids. "Edrychwch ar Mwlsyn. Mae wedi brifo."

Fedrai Mwlsyn ddim cerdded yn iawn. Roedd yn gloff. Roedd ei bawen yn gwaedu.






Edrychodd mam Wilma ar bawen Mwlsyn. "Mae wedi ei hagor hi," meddai.

Cafodd Wilff hyd i botel wedi torri. "Mae wedi sathru ar hon," meddai.

Roedd mam Wilma yn flin. "Peth peryglus ydi gadael poteli wedi torri ar hyd y lle," meddai hi.



Roedd y plant eisiau chwarae criced, felly cawson nhw gêm cyn mynd adref.

Roedd Mwlsyn eisiau chwarae, ond fedrai o ddim. Roedd ei bawen yn brifo gormod.

"Mwlsyn druan!" meddai Cad. "Fel fo'n union…i sathru ar wydr wedi torri!"







O'r diwedd roedd hi'n amser mynd adref.

"Diolch am fynd â ni," meddai'r plant.

"Mae'r holl awyr iach wedi codi chwant bwyd arna i," meddai tad Wilma. "Efallai y cawn ni rywbeth i'w fwyta ar y ffordd adref."

"Hwrê!" meddai pawb.




Roedd pawb eisiau cyw iâr a sglodion, felly arhosodd tad Wilma i nôl rhai.

"Pam mae gwell blas ar fwyd pan fyddwch chi'n ei fwyta allan?" meddai Wilff.


"Am ein bod ni i gyd eisio bwyd," meddai tad Wilma.



Wedi iddyn nhw orffen, chwiliodd Dids a Wilff am y bin sbwriel. Dim ond un oedd yno ac roedd yn llawn. Taflodd Dids ei sbwriel ar y llawr.

"Ddylen ni ddim gwneud hynna," meddai Cad.


"Wel, be fedrwn ni ei wneud?" meddai Wilff. "Mae'r bin yn llawn, felly be ydi'r ots?"



Roedd y plant wedi blino ar ôl y picnic. Roedd Dids yn falch o fynd i'r gwely. Roedd yr allwedd hud yn y bocs wrth ei wely. Dechreuodd ddisgleirio.

"O na!" ochneidiodd Dids. "Mae antur hud yn cychwyn, a rydw i ar fy mhen fy hun. Mae Onw yn cysgu, ac mae Cad i lawr y grisiau o hyd."






Chwyrlïodd yr hud Dids drwy ddrws y tŷ bychan. Teimlai ei hun yn troi rownd a rownd.

"Help! Help!" galwodd Dids. Gwyddai nad oedd yn mynd i fwynhau'r antur yma.

"Hen dro na fyddai Cad yma," meddyliodd.



Aeth yr hud â Dids i balas y Frenhines Sbwriel. Lle ofnadwy oedd o. Roedd sbwriel a sothach ym mhob man. Eisteddai'r Frenhines Sbwriel ar ei gorsedd. Roedd dwy lygoden fawr yn ei hymyl.


"Bydd hon yn antur annifyr," meddyliodd Dids.



"Croeso i 'nheyrnas i," meddai'r Frenhines Sbwriel. "Cei di ddechrau ar dy waith ar unwaith."

"Dechrau gweithio?" gofynnodd Dids. "Sut?"

"Dy waith di ydi fy helpu i wasgaru sbwriel a sothach ym mhobman. Mae digon o lefydd prydferth ar ôl i'w difetha."




Aeth hi â Dids i'w Chanolfan Sbwriel.
Roedd tomennydd o sbwriel a sothach ym mhobman.

"Sôn am lanast," meddai Dids. "Ac mae'n drewi."


"Llanast? Llanast?" meddai'r Frenhines Sbwriel yn flin gan daro'i throed ar y llawr. "Mae'n hyfryd. Ac mae'n hen bryd iti ddechrau gweithio."



Rhoddodd y Frenhines Sbwriel lifrai i Dids ei gwisgo.

"Estyn fag mawr a'i lenwi â sbwriel," gorchmynnodd. "Cei di ddechrau drwy wneud llanast mewn ychydig o barciau a meysydd chwarae. Os na wnei di waith da, bydda i'n flin iawn."

"O, mae'n gas gen i hyn," meddyliodd Dids.




Aeth hi â Dids i barc taclus. Dywedodd wrtho am wasgaru sbwriel. Yn fuan roedd y parc wedi ei orchuddio â chaniau a phapur.

Doedd Dids ddim eisiau difetha'r parc. "Edrychai'n iawn cyn i ni ddod," meddyliodd Dids. "Ond rŵan mae'n edrych yn ofnadwy."



Roedd y Frenhines Sbwriel yn gwylio Dids. "Brysia! Brysia!" gwaeddodd yn flin. "Rydw i eisio gweld y parc yma'n llanast drosto."

Roedd Dids eisiau lluchio'i holl sbwriel i'r bin, ond roedd arno ofn y Frenhines Sbwriel.

"Antur ofnadwy ydi hon," meddyliodd.



"Fi biau'r meicroleits yma," meddai'r Frenhines Sbwriel. "Bydda i'n eu defnyddio i wasgaru sbwriel dros y wlad i gyd. Cei di hedfan yn y meicroleit yma," meddai.


"Dydw i ddim eisio," meddai Dids. "Dydw i ddim eisio taflu sbwriel dros y wlad i gyd."



"Cau dy geg!" sgrechiodd y Frenhines Sbwriel. "Bydd yn ufudd. Os na fyddi di, cei di dy roi dan glo efo fy llygod mawr anferthol i."

Roedd ar Dids gymaint o ofn y Frenhines Sbwriel fel y dringodd i'r meicroleit.

"Hoffwn i petai'r antur yma ar ben," meddyliodd.



Cododd y meicroleit i'r awyr. Yn fuan roedd yn hedfan uwchben cefn gwlad.

Cydiodd Dids yn dynn. Islaw gwelai ddolydd a chaeau. Gwelai afonydd a thai bychan, bach. Gwelai goedydd a bryniau gwyrdd.

"Mae'r wlad yn edrych mor hardd," meddyliodd.



"O na!" ochneidiodd Dids. "Dyma le'r picnic. Gwela i'r goedwig lle brifodd Mwlsyn ei bawen."

Aeth y meicroleit yn is. Dyma ble roedd rhaid iddo ollwng sbwriel.

"Dydw i ddim eisio gollwng sbwriel yma," meddyliodd.




"Mae'n gas gen i'r allwedd hud," meddai Dids. "Mae'n gas gen i'r antur yma. Hen dro na fyddai ar ben."

Yn sydyn, collodd y peilot reolaeth ar y meicroleit. Dechreuodd droelli. Aeth rownd a rownd, yn gyflymach ac yn gyflymach.


Agorodd bag sbwriel Dids.



Roedd Dids yn syrthio. Teimlai fel petai'n syrthio am amser hir iawn.

Roedd yn syrthio gyda'r sbwriel. Roedd yno ganiau a photeli a bagiau a phapurau. Roedd popeth yn troelli rownd a rownd.

Disgynnodd yr allwedd hud o boced Dids.




“Ble mae’r allwedd hud?” gwaeddodd Dids.
“Rhaid imi gael hyd i’r allwedd hud!”

Roedd Dids yn y gwely. Roedd yr antur ar ben. Ond ai antur hud oedd hi, neu hen freuddwyd cas?

Clywodd Mam a Dad Dids yn gweiddi. Daethon nhw i’w ystafell i weld beth oedd yn bod.






“Cael hen freuddwyd cas wnest ti,” meddai Mam.
“Wedi bwyta gormod yn y picnic mae’n debyg.”

“Antur hud oedd hi,” meddai Dids.
“Ond collais i’r allwedd.”

Edrychodd Dad ar Mam. “Efallai nad ydi o’n dda,” meddai. “Efallai fod ganddo fo wres.”




Y diwrnod wedyn, roedd Dids yn yr ysgol. Aeth i siarad efo Mr Elis ar y buarth.

"Edrychwch ar yr holl sbwriel," meddai. "Mae pacedi creision a phapurau ar hyd y lle."

"Oes," meddai Mr Elis. "Ond sut medrwn ni rwystro pawb rhag taflu sbwriel ar y llawr?"







"Beth am wneud cywaith sbwriel?" meddai Dids.

Cododd plant dosbarth Mr Elis y sbwriel o amgylch yr ysgol i gyd. Yna gwnaethon nhw bosteri a sgwennu storïau.

Anfonodd Mr Elis y gwaith i gyd i'r gystadleuaeth 'Achub Cefn Gwlad'.




Enillodd dosbarth Mr Elis y gystadleuaeth. Enillodd Dids wobr arbennig am ei stori 'Y Frenhines Sbwriel'. Daeth person pwysig i rannu'r gwobrau.

"Roedd honna'n stori dda iawn, Dids," meddai hi.

"Hunllef oedd hi!" meddai Dids.

Argraffwyd yng Nghymru

# Y Frenhines Sbwriel

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 9



Pïod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-325-3

ISBN 0 86 174325 3

DRAKE

9 790861 743253